



Tirwedd

Papur Testun Rhif 13 – Crynodeb

Cyflwyniad

Mae'r dirwedd, a ba ffurf bynnag, yn rhan bwysig o'n bywyd bob dydd. Mae'n rhan annatod o gyfoeth y sir, ac o'n hiechyd a'n lles ac rydym yn ffodus bod gennym dirwedd mor amrywiol yn Sir y Fflint. Gan hynny, mae'r dirwedd yn elfen bwysig o gynllunio defnydd tir.

Y cyd-destun

Mae pwysigrwydd y dirwedd i'w weld mewn polisiâu a chanllawiau ar bob lefel, o bolisiâu cynllunio rhyngwladol, cenedlaethol a rhanbarthol i bolisiâu lleol a ffynonellau gwybodaeth a chanllawiau manylach..

Dyma ddiffiniad y Confensiwn Tirweddau Ewropeaidd (ELC) o dirwedd: *"...mae'n golygu ardal, fel y'i canfyddir gan bobl, a chanddi gymeriad a grëwyd gan ffactorau byd natur/pobl a'r modd y maent yn rhyngweithio â'i gilydd."*

Nid yw'r ELC yn hyrwyddo neges gadwraethol ond mae'n annog pobl i greu tirweddau at y dyfodol yn ogystal â rheoli'n gynaliadwy'r tirweddau rydym wedi'u hetifeddu.

Adlewyrchir hyn yn niffiniad Cyngor Cefn Gwlad Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru yn awr) o dirwedd:

'...realaeth ffisegol yr amgylchedd o'n cwmpas, yr elfennau diriaethol sy'n rhoi ffurf ac amrywiaeth iddo.....a hefyd yr amgylchedd a ganfyddwn, yn bennaf drwy ei weld, ond hefyd drwy ei arogl, ei gyffwrdd a'i glywed. Mae ein cefndir diwylliannol a'n diddordebau personol a phroffesiynol hefyd yn effeithio ar ein gwerthfawrogiad o'r dirwedd. Cyfuniad o'r holl elfennau hyn ydyw...' (CCC 2001)

Ar sail y diffiniad hwn, aeth CCC ati i ddatblygu LANDMAP – system i gynnal asesiad cynhwysfawr o ansawdd y dirwedd sy'n ystyried agweddau daeareg, cynefinoedd, hanes, diwylliant, y synhwyrâu a'r elfennau gweledol. Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell system LANDMAP fel 'adnewdd pwysig i awdurdodau cynllunio ei ddefnyddio wrth gynnal yr asesiadau tirwedd sydd eu hangen i baratoi polisiâu lleol.' (Polisi Cynllunio Cymru 5.3.13).

Mae'r dirwedd o'n cwmpas yn amrywio o ran natur ac yn creu ymdeimlad o le ac o arwahanrwydd lleol. Un o swyddogaethau allweddol y broses gynllunio yw cydnabod bod y dirwedd yn cynnwys nid yn unig safleoedd sydd wedi'u dynodi'n statudol neu safleoedd hanesyddol ond hefyd ardaloedd trefol, cefn gwlad a'r arfordir.

Mae ein tirwedd, ar ba ffurf bynnag, yn bwysig o ran buddion economaidd, bioamrywiaeth a lles y trigolion ac ymwelwyr. Mae'r dirwedd yn effeithio ar batrymau twf drwy'r sir ac, yn wir, dros y ffin. Mae Cynllun Gofodol Cymru a Pholisi Cynllunio Cymru yn annog awdurdodau i weithio'n drawsffiniol ac fel un o awdurdodau'r gororau, un o elfennau sylfaenol y cynlluniau yw mabwysiadu agwedd ofodol.

Bydd y cynllun yn hwyluso'r gwaith o ddiogelu a gwella nodweddion arbennig Sir y Fflint a all gynnwys: Y Porth i'r Gogledd; Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE); Tirweddau Hanesyddol; Aber Afon Dyfrdwy a dynodiadau bywyd gwyllt eraill; Henebion a Choetiroedd a Gwrychoedd Hynafol. Hefyd, mae'n dynodi Trefi Hanesyddol ac

ardaloedd twf economaidd fel Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy a Brychdyn.

Rôl y Cynllun

Rhoi cynllun datblygu ar waith sy'n diogelu ac yn gwella cymeriad arbennig tirwedd Sir y Fflint:

- Diogelu tirweddau dynodedig statudol
- Diogelu cymeriad a nodweddion y dirwedd y mae'r cynigion datblygu'n ymwneud â hi
- Cydnabod bod y dirwedd ynghlwm wrth les a'i chyfraniad at dwristiaeth a'r economi wledig
- Cydnabod effaith y newid yn yr hinsawdd ar y dirwedd

Cynlluniau a Strategaethau Tirwedd Allweddol

Rhyngwladol

- Confensiwn Tirweddau Ewropeaidd (2007)

Cenedlaethol

- Strategaeth Ofodol Cymru
- Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 5 (2012) Pennod 5
- Nodyn Cyngor Technegol TAN 7: Rheoli Hysbysebion Awyr Agored 1996
- Nodyn Cyngor Technegol 8: ynni adnewyddadwy (2005)
- Nodyn Cyngor Technegol TAN 10: Gorchmynion Diogelu Coed (1997)
- Nodyn Cyngor Technegol TAN 14: Cynllunio Arfordirol (1998)
- LANDMAP
- Cofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Cymru

Rhanbarthol

- Cynllun Rheoli AHNE Bryniau Clwyd
- Strategaeth Is-ranbarth Gorllewin Swydd Caer/ Gogledd-ddwyrain Cymru 2004-2021

Lleol

Tirweddau sy'n Gweithio i Gymru: Strategaeth Tirwedd Sir y Fflint, Cyfrol 1, Ebrill 1996

Materion i'r Cynllun ymdrin â nhw

- Gwella'r morlin a'n morlun i hybu twf economaidd y Sir
- Wrth geisio mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, effaith y seilwaith ar dirwedd – h.y. ynni adnewyddadwy; cyfleustodau; rhwydweithiau teithio
- Diogelu a gwella nodweddion pwysig/arbennig y Sir
- Rheoli hysbysebion awyr agored a all amharu ar dirlun cefn gwlad.
- Asesu a ddylai'r cynllun gynnwys Ardal Tirwedd Arbennig neu ddynodiad lleol arall o ystyried yr amserlen ar gyfer rhoi'r cynllun ar waith, diffyg anoddau o ran amser, staff, cyllid ac arbenigedd.
- Mynd i'r afael â'r gwaith o greu tirweddau o safon fel rhan o gynigion datblygu newydd, yn enwedig ar safleoedd tir llwyd.

Polisiâu/Cynigion Posibl ym maes Defnyddio Tir

Mae 6 pholisi yn y CDU sy'n ymwneud yn benodol â thirweddau, er bod yr angen i ystyried tirweddau hefyd yn rhan o bolisiâu strategol a chyffredinol

Wrth adolygu'r polisiâu presennol, dylid cynnwys rhai polisiâu tirwedd mewn polisiâu strategol a chyffredinol. Cynigir y dylai polisiâu a chynigion allweddol yn ymwneud â'r dirwedd gynnwys y canlynol:

- Cynnal a chadw a gwella cymeriad y dirwedd
- Diogelu coetiroedd, coed a gwrychoedd.
- Caniatáu hysbysebion awyr agored dim ond os cânt eu cynllunio'n briodol ac nad ydynt yn amharu ar yr ardal gyfagos.